# Agenda - Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 7 Hydref 2019

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Alun Davidson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddMADY@cynulliad.cymru

**Rhag-gyfarfod preifat**

(13.15-13.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit

(13.30-14.30) (Tudalennau 1 - 44)

Jeremy Miles AC, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit

Simon Brindle, Llywodraeth Cymru

## 3 Papurau i'w nodi

(14.30-14.35)

**3.1 Papur i'w nodi 1: Gohebiaeth oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru at y Cadeirydd ynghylch gwaith dilynol yn sgil adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: 'Paratoadau yng Nghymru ar gyfer Brexit 'heb gytundeb'' - 27 Medi 2019**

(Tudalennau 45 - 52)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.35)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 5 Sesiwn friffio breifat ar gytundebau rhyngwladol

(14.35-15.35)

Emma Edworthy, Llywodraeth Cymru

Jonathan Price, Llywodraeth Cymru

Owain Morgan, Llywodraeth Cymru

## 6 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit – trafod y dystiolaeth

(15.35-15.50)

## 7 Swyddfa Archwilio Cymru – Trafod y gwaith dilynol yn sgil adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: 'Paratoadau yng Nghymru ar gyfer Brexit 'heb gytundeb''

(15.50-16.00)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

David Rees AC
Cadeirydd, Pwyllgor Materion Allanol
a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd CF99 1NA

**Cyfeirnod:** 1506A2019-20
**Dyddiad cyhoeddi:** 27 Medi 2019

Annwyl David,

## Llythyr i ddilyn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: 'Paratoadau yng Nghymru ar gyfer Brexit 'heb gytundeb''

Cyhoeddais f'adroddiad ar 'Paratoadau yng Nghymru ar gyfer Brexit 'heb gytundeb'' ym mis Chwefror 2019. Roedd yr adroddiad hwnnw'n crynhoi canlyniadau fy ngwaith archwilio ar draws cyrff cyhoeddus Cymru i asesu pa mor barod oeddent. Y tair neges allweddol i'r sector cyhoeddus oedd:

- na all ansicrwydd fod yn esgus dros beidio â gweithredu, a rhaid peidio ag edrych ar archwilio fel rhwystr i gynllunio effeithiol ar gyfer Brexit;
- cryfhau a dyfnhau dull 'un gwasanaeth cyhoeddus' o wneud paratoadau; a
- chryfhau arweinyddiaeth ddinesig ar baratoadau ar gyfer Brexit 'heb gytundeb'.

Yn ddiweddarach, cytunodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) a'r Undeb Ewropeaidd (UE) ar estyniad i broses Erthygl 50, ac o dan hwn y drefn bellach yw y bydd y DU yn gadael yr UE ar 31 Hydref 2019.

Ar hyn o bryd mae cryn ddadlau gwleidyddol a chyfreithiol ynghylch llinell derfyn yr 31ain o Hydref. Erbyn hyn, mae yna Ddeddf Seneddol yn mynnu bod y Llywodraeth yn gofyn am estyniad, yn absenoldeb cytundeb â'r UE. Fodd bynnag, mae Prif Weinidog y DU wedi datgan na fydd ef yn gofyn am estyniad o'r fath. Ar wahân i'r ansicrwydd ar lefel y DU, bydd unrhyw estyniad yn gofyn am gytundeb unfrydol 27 aelod arall yr UE. Nid yw cytundeb o'r fath yn bendant ac efallai y daw ag amodau ei hun na fydd Llywodraeth na Senedd y DU yn fodlon eu derbyn.

O ganlyniad i'r ansicrwydd yma, ar adeg ysgrifennu'r llythyr hwn, mae Brexit heb gytundeb ar 31 Hydref yn dal i fod yn ganlyniad posibl. Ni fyddai unrhyw estyniad yn y llinell derfyn ynddo'i hun yn dileu'r posibilrwydd o Brexit heb gytundeb ar ddyddiad diweddarach. Felly, mae'n dal yn ganlyniad y mae angen i'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fod yn barod amdano.

Ar y sail honno, rwyf yn ysgrifennu i roi fy sylwadau i'ch Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed yn y misoedd diwethaf gan gyrff cyhoeddus datganoledig ledled Cymru o

ran paratoi ar gyfer Brexit 'heb gytundeb' posibl. Mae'r diweddariad hwn i'm hadroddiad ym mis Chwefror yn seiliedig ar ein hadolygiad o ddogfennau cynllunio allweddol, a chyfweliadau diweddar gyda swyddogion arweiniol Llywodraeth Cymru, Cydffederasiwn GIG Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn wahanol i'm hadolygiad diwethaf, nid ydym wedi ceisio casglu tystiolaeth fanwl bellach gan gyrff unigol a archwiliwyd ar draws Cymru, er bod gwybodaeth a gasglwyd fel rhan o'n gwaith archwilio lleol arferol dros yr haf wedi cyfrannu i'm gwaith. Gan fod Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi ei chynllun gweithredu 36-tudalen, 'Paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb', nid wyf wedi ceisio ailadrodd ymdriniaeth â risgiau penodol unigol yn y llythyr hwn.

Mae fy sylwadau ar y sefyllfa bresennol wedi eu hegluro yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Yn gryno, fodd bynnag, credaf mai'r heriau allweddol sy'n wynebu arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru yn awr yw:

- **Cynnal gweithio ar y cyd:** Mae cynllunio ar gyfer Brexit heb gytundeb wedi parhau, ac wedi cael ei gryfhau'n sylweddol mewn rhai meysydd, ers mis Mawrth. Ceir tystiolaeth i ddull mwy cydweithredol ledled gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Mae'n hollbwysig bod hyn yn parhau.
- **Cryfhau cyfathrebu â'r cyhoedd:** Rhaid i'r gwasanaethau cyhoeddus gyfleu negeseuon clir a chyson i'r cyhoedd ynghylch goblygiadau Brexit heb gytundeb, gan adeiladu ar y trefniadau sydd yn eu lle eisoes. Yn neilltuol, mae angen i'r cyhoedd wybod yr hyn y dylent ei wneud ac, yr un mor bwysig, yr hyn na ddylent ei wneud o ran cyflenwadau o feddyginiaethau, bwyd a thanwydd.
- **Gwella gwaith craffu annibynnol:** Mae angen i'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu cyrff cyhoeddus Cymru wella'u gwaith o oruchwylio a chraffu ar baratoadau ar gyfer Brexit, wrth i 31 Hydref agosáu a hefyd yn y cyfnod fydd yn dilyn yn syth wedyn.
- **Bod yn barod i ymateb gyda'i gilydd i'r annisgwyl:** Mae angen i gyrff cyhoeddus fod yn ystwyth ac addasu'n gyflym i ddatblygiadau annisgwyl, yn enwedig gan fod rhai o oblygiadau cynnar Brexit heb gytundeb yn anodd eu rhagweld.
- **Cynllunio a pharatoi ar gyfer effeithiau yn y tymor hirach:** Mae angen i gyrff cyhoeddus rannu eu sylw rhwng y canlyniadau fydd yn digwydd yn syth ar ôl Brexit heb gytundeb a pharatoi ar gyfer ei effeithiau yn y tymor hwy.

Gobeithiaf y bydd y diweddariad hwn o gymorth i chi a'ch Pwyllgor yn eich gwaith craffu parhaus.

Yn gywir,



**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Atodiad 1

# Paratoadau yng Nghymru ar gyfer Brexit ‘heb gytundeb’: Sylwadau’r Archwilydd Cyffredinol ym mis Medi 2019

Mae’r papur hwn yn crynhoi ein hasesiad o’r cynnydd a wnaed gan gyrff cyhoeddus Cymru yn erbyn pob un o’r tair neges allweddol a restrwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Chwefror 2019 ar 'Paratoadau yng Nghymru ar gyfer Brexit ‘heb gytundeb’' ac mae’n rhoi sylwebaeth archwilio allanol ar y sefyllfa ddiweddaraf.

Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â llythyr yr Archwilydd Cyffredinol, dyddiedig 27 Medi at Gadeirydd Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy’n rhestru pump o heriau allweddol cysylltiedig â Brexit sy’n wynebu arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

### Ynghylch y gwaith a wnaed gennym

Rydym wedi cynnal adolygiad ar lefel uchel iawn yn sail i’r diweddariad hwn. Rydym wedi cyfweld swyddogion uchel yn Llywodraeth Cymru sy’n gyfrifol am gynllunio ar gyfer Brexit, yn ogystal â swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chydffederasiwn GIG Cymru. Fe wnaethom hefyd gyfweld swyddogion Hybu Cig Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, dau o’r cyrff sy’n cael eu hariannu ag arian cyhoeddus, y bydd Brexit o bosibl yn effeithio’n fwyaf uniongyrchol arnynt. Rydym wedi adolygu dogfennau oedd ym meddiant Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ei chynllun gweithredu trosfwaol a dogfennau cynllunio manwl eraill. Er inni edrych ar gynlluniau, nid ydym wedi cynnal gwaith i roi prawf ar y cynlluniau hynny ac nid ydym wedi ceisio ffurfio barn ynglŷn â pha mor effeithiol y maent yn debygol o fod.

## Cynnydd yn erbyn tair neges allweddol yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad ym mis Chwefror 2019

**Neges 1: Ni all ansicrwydd fod yn esgus dros beidio â gweithredu, a rhaid peidio ag edrych ar archwilio fel rhwystr i gynllunio effeithiol ar gyfer Brexit**

Ers pan adroddais ym mis Chwefror, mae’r cynllunio ar gyfer Brexit heb gytundeb wedi parhau i gyflymu ledled gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn adrodd am ymdrechion cynyddol i gynllunio’n fanwl o fewn a rhwng cynghorau. Mae Cydffederasiwn GIG Cymru yn adrodd bod paratoadau manwl GIG Cymru wedi parhau ers mis Mawrth ac wedi dwysáu ers yr haf. Buom hefyd yn siarad â Hybu Cig Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Gallai’r ddau gorff ddangos eu bod wedi cynnal gwaith parhaus i baratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwella ei chynllunio ar gyfer diffyg cytundeb ac wedi parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn ddiweddar mai:

> 'Y penderfynydd mwyaf sy'n effeithio ar ein gallu i baratoi'n effeithiol yw Llywodraeth y DU ei hun, a'i pharodrwydd i ddarparu cyllid ychwanegol, rhannu gwybodaeth a gweithio mewn ffordd ystyrlon gyda ni. Yn anffodus, o dan Lywodraeth newydd y DU, mae ymgysylltiad a llif gwybodaeth wedi lleihau'n sylweddol, fel y mae ei gweithgaredd i baratoi ar gyfer diffyg cytundeb yn ymddangos fel pe bai wedi cynyddu'n sylweddol.'[1]

**Neges 2: Cryfhau a dyfnhau ymhellach y dull 'un gwasanaeth cyhoeddus' o wneud paratoadau**

Ers fy adroddiad ym mis Chwefror, mae'r adeiladwaith ar draws yr holl wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer cynllunio ynghylch Brexit wedi aros yn ei le i raddau helaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynllun gweithredu Brexit mewnol, trosfwaol, newydd, sy'n egluro'r meysydd o risg allweddol ac ymatebion ar draws y Llywodraeth i'r risgiau hyn.

Yn ddiweddar, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn gofyn iddynt gasglu tystiolaeth gan gynghorau ynglŷn â'r ffordd y maent yn paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb. Bydd y dystiolaeth hon yn dylanwadu ar drafodaeth yng nghyfarfod Cyngor Partneriaeth Cymru[2] ar 2 Hydref, gyda golwg ar ofyn am sicrwydd gan lywodraeth leol ynghylch ei lefel hi ei hun o barodrwydd ac, wrth wneud hynny, nodi unrhyw gamau pellach y mae angen eu cymryd ar fyrder ac unrhyw oblygiadau cysylltiedig o ran adnoddau.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn adrodd bod cydweithredu rhwng cynghorau wedi cyflymu. Mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth, cynllunio ac asesu parodrwydd drwy Banel Parodrwydd (UE) Llywodraeth Leol. Mae'r Panel hwnnw yn cynnwys rhai Prif Weithredwyr cynghorau, pob un yn cynrychioli rhanbarth ehangach o Gymru, yn cael eu cefnogi gan nifer o Gyfarwyddwyr sy'n arwain ar feysydd gwasanaeth allweddol. Mae CLlLC yn adrodd bod y Panel wedi canolbwyntio ar sicrhau parhad gwasanaethau lleol a materion sy'n wynebu busnes a chymunedau. Mae'r ymdrech gyfunol hon hefyd yn cael ei chefnogi gan gynnydd yng nghapasiti pob

---

[1] Llywodraeth Cymru, '<u>Paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb'</u> Medi 2019

[2] Mae **Cyngor Partneriaeth Cymru'n** cynnwys Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru, Arweinwyr Cynghorau, cynrychiolwyr y GIG, y trydydd sector a'r undebau llafur.

cyngor i baratoi ar gyfer Brexit, gyda phob un bellach â swyddog arweiniol yn cael ei gyllido drwy Gronfa Bontio Brexit.

Yn yr un modd, mae Cydffederasiwn GIG Cymru wedi defnyddio'r Gronfa i gyflogi dau aelod parhaol o staff, sy'n hyrwyddo cynllunio cyfunol a rhannu gwybodaeth ar draws y GIG. Mae cydweithredu rhwng iechyd a gofal cymdeithasol wedi cryfhau, gyda chynrychiolwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn rhan o'r grwpiau cynllunio Brexit a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru[3].

Mae'r gwaith ar draws y gwasanaethau cyhoeddus i baratoi ar gyfer unrhyw sefyllfaoedd brys wedi parhau ers mis Mawrth, gyda Llywodraeth Cymru yn cysylltu â chynlluniau allweddol Llywodraeth y DU, gan gynnwys *Operation Yellowhammer*. Cafodd cynlluniau dinesig wrth gefn eu gweithredu pan oedd y DU yn nesáu at Brexit heb gytundeb ym mis Mawrth 2019, gan gynnwys pedwar diwrnod o weithrediadau 24-awr yng Nghanolfan Rheoli Argyfwng Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'i phartneriaid yng Nghymru ac ar draws gweddill y DU i ddysgu gwersi o brofiad mis Mawrth a diweddaru cynlluniau a threfniadau cenedlaethol a lleol yn unol â hynny. Dros yr wythnosau diwethaf, bu gwasanaethau cyhoeddus Cymru'n gweithio gyda'i gilydd i roi prawf ar eu trefniadau ar gyfer argyfyngau sifil, gan gynnwys rhedeg sefyllfaoedd gwahanol i roi prawf ar eu hymatebion cyd-drefnedig a'u sianelau cyfathrebu.

**Neges 3: Cryfhau arweinyddiaeth ddinesig ar baratoadau ar gyfer Brexit 'heb gytundeb' (craffu a chyfathrebu)**

Craffu

Yn dilyn cyhoeddi f'adroddiad ym mis Chwefror, bu fy staff yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Academi Wales, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chydffederasiwn GIG Cymru ar webinar a thair seminar. Eu diben oedd paratoi rhai nad oeddent yn weithredwyr ynghyd â chynghorwyr i fedru craffu'n well ar baratoadau eu sefydliadau ar gyfer Brexit.

Er nad ydym wedi cyflawni gwaith manwl pellach ar weithgarwch craffu, mae ein timau archwilio wedi sylwi dros fisoedd yr haf bod materion yn ymwneud â Brexit wedi ymddangos yn rheolaidd ar raglenni cyfarfodydd. Serch hynny, byddwn yn pwysleisio'r angen i ddwysáu craffu – cyn 31 Hydref a hefyd yn syth ar ôl hynny.

[3] Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys Fforwm Ymgynghorol Rhanddeiliaid Gweinidogol Brexit, Grŵp Arweinyddiaeth Pontio'r UE a Grŵp 'Uwch Berchnogion Cyfrifol' Brexit.

Cyfathrebu

Ers mis Chwefror 2019, mae cyrff cyhoeddus ledled Cymru wedi cynnal gwaith pellach i ddatblygu cyfathrebu mewnol ac allanol. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddiweddaru ei gwefan 'Paratoi Cymru', a hefyd 'Porth Brexit' sy'n rhan o'r ymgyrch i gynorthwyo busnesau i baratoi. Mae gan rai cynghorau hefyd yn awr eu gwefannau eu hunain yn esbonio rhai o'r materion allweddol ynghylch paratoi ar gyfer Brexit. Mae Cydffederasiwn GIG Cymru wedi ehangu amrediad y dogfennau ar ei wefan gyhoeddus ac wedi cyhoeddi pecyn cymorth parodrwydd ar gyfer Brexit. Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd grŵp cyfathrebu Brexit, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar rannu negeseuon a datblygiadau allweddol ar draws y GIG ac ymysg darparwyr gofal cymdeithasol, er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd staff y rheng flaen. Mae Cydffederasiwn y GIG hefyd yn cynhyrchu cylchlythyr wythnosol a anfonir i randdeiliaid ar draws Cymru, yn ogystal â diweddaru dogfen 'Cwestiynau a Ofynnir yn aml' a ddefnyddir i baratoi gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer sefyllfa heb gytundeb.

Mae'r rheiny sy'n paratoi ar gyfer Brexit hefyd yn gynyddol bryderus ynglŷn â'r anhawster o ragweld a pharatoi ar gyfer adweithiau'r cyhoedd i risgiau gwirioneddol neu rai canfyddedig. Gall penderfyniadau unigol (er enghraifft, ar swmp-brynu meddyginiaethau) gael goblygiadau mawr iawn ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus os cânt eu hailadrodd yn eang ar draws y boblogaeth. Bu ymdriniaeth amlwg iawn yn y cyfryngau ynghylch y posibilrwydd y bydd yna darfu ar gyflenwadau o feddyginiaethau, bwyd a thanwydd, yn dilyn cyhoeddi dogfen 'Operation Yellowhammer' Llywodraeth y DU a'r pryderon a godwyd gan gyrff proffesiynol. Yn ddiweddar iawn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun gweithredu ei hun ar gyfer Brexit heb gytundeb, sy'n disgrifio gwaith parhaus helaeth i reoli'r risgiau hyn a llawer eraill.

Wrth i Brexit nesáu, bydd angen i gyrff cyhoeddus gynyddu eu hymdrechion unigol a chyfunol i gyfathrebu ynglŷn â goblygiadau Brexit. Os caiff hyn ei wneud yn dda, bydd yn osgoi creu pryder dianghenraid ac yn lleihau'r peryglon sy'n gysylltiedig â phentyrru cyflenwadau unigol.

## Cynnydd mewn meysydd o risg arbennig

Mae cynllun gweithredu 35-tudalen Llywodraeth Cymru, 'Paratoi ar gyfer Brexit 'heb gytundeb'', yn rhoi rhestr hir o beryglon ac yn crynhoi sut y mae'n ymateb i bob un o'r risgiau hyn. Yn unol â hynny, nid wyf wedi ceisio ailadrodd yn y llythyr hwn ymdriniaeth â risgiau penodol unigol. Drwy fy ngwaith, rwyf yn fodlon bod cynllunio a phrofi manwl wrth wraidd y cynllun gweithredu.

Cynllunio ar gyfer Brexit yw'r esiampl fwyaf cynhwysfawr o weithio ar draws llywodraeth yr ydym wedi gweld Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag ef hyd yma. Mae'n ddiamau y bydd yna wersi gwerthfawr i Lywodraeth Cymru eu tynnu o'r

profiad hwn a sut y gallai efallai addasu ei dull ar gyfer ymdrin â heriau cyflawni gwasanaethau cyhoeddus trawstoriadol eraill.

Yn ogystal â mynd i'r afael ag effeithiau cyntaf Brexit heb gytundeb, mae angen i gyrff cyhoeddus ar hyd a lled Cymru baratoi ar gyfer y goblygiadau, y peryglon a'r cyfleoedd yn y tymor hir ym mherthynas newydd y DU â'r UE ac â gweddill y byd. Mae'r berthynas rhwng cydrannau'r Deyrnas Unedig hefyd yn debygol o newid, gyda phwerau'n dychwelyd o'r UE i'r DU ac i'r gweinyddiaethau datganoledig.

Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio peth o'r cyllid ychwanegol y mae'n ei ddarparu o'i Chronfa Bontio Ewropeaidd o £50 miliwn i baratoi ar gyfer newidiadau yn y dyfodol. Bwriedir i'r Gronfa redeg hyd fis Rhagfyr 2020. Yn Ffigur 1, rydym wedi dadansoddi'r £34.4 miliwn o gyllid a gyhoeddwyd hyd yma dan bedair thema fras[4]:

- paratoi busnes a'r gweithlu;
- paratoi'r gwasanaethau cyhoeddus;
- paratoi cymunedau ac unigolion; a
- pharatoi ar gyfer dyfodol buddsoddi rhanbarthol.

Dengys y dadansoddiad hwn fod £21.8 miliwn o'r cyllid a ddyrannwyd hyd yn hyn yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo busnesau a'r gweithlu, gan ganolbwyntio ar y sectorau mwyaf agored i niwed. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £7.2 miliwn i gefnogi paratoadau gwasanaethau cyhoeddus. Mae hefyd wedi dyrannu £4.5 miliwn i gefnogi cymunedau ac unigolion, gan gynnwys pecyn cymorth i gynorthwyo dinasyddion yr UE i baratoi ar gyfer Brexit a pharhau i fyw a gweithio yng Nghymru.

Ffigur 1: Dyraniadau'r Gronfa Bontio Ewropeaidd a gyhoeddwyd hyd yma

| Themâu Prosiectau | £ miliwn |
|---|---|
| **Paratoi busnes a'r gweithlu** | **21.76** |
| Cadernid Busnes | 9.20 |
| Cymorth ar gyfer sectorau ffermio, bwyd a physgota | 6.36 |
| Hyfforddiant ac uwchsgilio | 6.20 |
| | |
| **Paratoi'r gwasanaethau cyhoeddus** | **7.21** |
| Cymorth i Brifysgolion Cymru | 3.50 |

[4] Rydym wedi categoreiddio pob prosiect dan brif thema, ond efallai y bydd rhai prosiectau unigol yn cyfrannu i nifer o themâu.

| Themâu Prosiectau | £ miliwn |
|---|---|
| Cymorth i awdurdodau lleol | 1.41 |
| Paratoi'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ar gyfer Brexit | 0.75 |
| Fforymau Cadernid Lleol | 0.50 |
| Asiantaeth Safonau Bwyd | 0.47 |
| Cymorth i'r Heddlu | 0.43 |
| Cymorth i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | 0.15 |
| | |
| **Paratoi cymunedau ac unigolion** | **4.50** |
| Hawliau dinasyddion yr UE yng Nghymru | 1.28 |
| Cryfhau cydlyniad cymunedol | 1.52 |
| Cynllun Gweithredu mynd i'r afael â Throseddau Casineb a Chydlyniad Cymunedol | 1.20 |
| Statws Preswylydd Sefydlog a Chyngor Mewnfudo | 0.50 |
| | |
| **Paratoi ar gyfer dyfodol buddsoddi rhanbarthol** | **0.94** |
| Trefniadau olynol i gronfeydd strwythurol yr UE | 0.59 |
| Datblygu dull buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol | 0.35 |

Ffynhonnell: dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru